


GAUDEO

Y Rhwymiad hwn a Cynnwys

1. Hanes y Ddadl rhwng Pobl yr America a'r Llywodraeth.
2. Diwygiad neu ddinystr.
3. Hanes Tair Sir ar Ddeg Cymru
4. ychydig Ddalenau o bapur Ysgrifenu

Robert Davies, Gilwach,
ei Lyfr, 1821.

[illegible] perffaith waith ar ffo
od ymâ i redeg ar ewyddel
i rywle i daro dros y traeth
o Lundain aeth ffydd londeb

33117
[Shipley Jarethen]

2750/
HOLMP+
1/4

Gwelais lyfryn yr un a'r Llyfryn
cyntaf yn y rhwymiad hwn; ac
yr un fath; (ond y gwahaniaeth a nodaf
isod;) yr oedd o'r un argraphiad a hwn,
ond y Pedair dalen gyntaf o hono.

yn lle "Gan ESGOB O——" ar y
tu dalen Enwol yr oedd "Wedi ei
gyfieithu o'r Saesnaeg er budd i'r Cymru."

Yn y Llythyr "At y Cymru" yr
ail tud. ~~[illegible]~~ ar ol "ei cael im
cydwladwyr" —— yr oedd ~~[illegible]~~
"o'r annaturiol anghydfod yma". ——
hefyd yn lle "am v ddau air". — yr oedd
"yn perthynas i'r ddau air". ——
ac hefyd ~~fel~~ enw yn lle "Y Cyfieithydd"
yr oedd "D. M." —— ac yr oedd
y llyfryn hwnw hefyd heb ddim ol-
-ysgrifen ar ol y Llythyr, mewn
perthynas i'r v ar y.

Robt Davies

Mawrth }
1822 }

nes-n
cyffr
ynion
chwe
ystyr
yn a
pha
dinis
io'r
yn ei

HANES

Tair Sir ar *Ddeg*


CYMRU.

Yn Cynnwys yſpyſiad helaeth pa fath ydynt A pha bethau goreu ſy ymmhob un o honynt, A pha fath Bobl ſy'n Gwladychu ynddynt, a pheth yw Hyſwiaeth bennaf, Merched ymmhob Sir? Pa yd ac Enllyn ſy amla a gorau ymmhob un o honynt: A Pa le mae'r Geffyleu, Gwartheg, Defaid Brethynoedd, Gweddoedd, Gwlanenni· y Llieiniau goreu Yng Nghymru, *&c.*

At yr hon y chwanegwyd Tair o Gerddi Dwyfol.

A Rhifedi Plwyfydd pôb Sir uwch eu pennau.

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan *J. Eddowes.*


RPJCB

Dechreu.

1.

GWrandewch yn bwyllig oll heb pallu,
Cewch glywed Hanes siroedd Cymru,
Rhyw awch alar y rhai a chwaled;
Briwiau tynn ir hên *Fryttanied.*

2.

Trwy Wraig y Daeth y Pechod Cyntaf,
A Llygredigaeth ir Byd yma;
A hwnnw yn annoeth sydd yn Ennyn,
A hên gilwg yn ei ganlyn.

3.

Am ffiaidd waith Aflendid creulon,
Trachwant trythill Daiarolion;
A wnaeth trwy Wastraff ddyfod dystryw,
I foddi 'r Byd ar Dyfroedd Dilyw.

4.

O achos pechu'n felltigedig,
Yr aeth *Sodom* yn golledig,
Pan achubwyd *Lot* ai Dylwyth,
Ar llaill yn cael eu llosci'n danllwyth.

5. [35. 22.

Am Wraig y llygrodd yr hên *Reuben* Gen.
A *Juda*'n feddw ei Waudd heb amgen, 38. 18.

Lladdfa *Sichem* o achos *Dinah*. *Gen.* 34. 25.
Twyllo *Sampson* y Gwr cryfa. *Barn.* 16. 21.

6.

Am wraig y lladdodd yr *Israeliaid*,
Ond chwechant y *Benjaminiaid*. *Barn.* 17. 47.
Ei gwraig gwnai *Herod* oedd ddihirwr,
Di fri pen St. *Joan Fedyddiwr*.

7.

Ac felly am Helen y wraig lana,
Y Distrywyd Tref *Gaer-Droia*,
A gyrru'r *Cymru* anafu Nifer,
Y gweddill agos i Dir *Lloeger*.

8.

O waith ein Brenin mewn môdd atcas,
Halogi a thorri glân Briodas;
A chym'ryd Merch i un Hengist Ddistain,
A'naeth y brâd i ynys Brydain.

9.

Pechodau mawrion a wnaeth dramgwydd,
Am i ni'n ddygyn ddigio 'r Arglwydd,
A'n gyrru'n siwr i hyn o Siroedd,
Rhyw draws târ a rhai dros Foroedd.

Terfyn.

Terfyn.

BOB amser arfer yrfa yn gyfan,
I gofio Duw'n benna,
Ai Fendithion Doerhion da,
Dewr aml ar Dir yma.

Crêd yn y Duw byw tra by'ch o'r Galon,
A galw arno yn fynych;
Cofia 'daw y Rhaw a'r Rhych,
Oll yn wael lle ni welych.

Y Bêdd yw diwedd pob Dyn i'r Cnawd
Er cnwd o Aur melyn;
Yr Einioes bob yn ronyn,
I own o glai yno glŷn.

Hyd Farn yn Gadarn pan godir, Meirw,
Y Moroedd a holltir;
O'r byd hwn i'r bywyd hir,
A geir yno gwae'r anwir.

D. T.

Hanes Y Siroedd ar amryw Fesurau.

Sir Fon.

Sir Fon. 47 Plwyfydd.

1.

MAE *Sir Fôn* a Thre'r *Beumares*,
Ar Môr o'i hamgylch hynnod hanes,
Cronn a gwaſtad heb fawr Fynydd,
Llawn o ŷd, a phringder Coedydd.

2.

Ceffylau têg gan mwya 'n wynion,
Defaid lawer a rhai 'n llwydion,
Ychen mawrion o liw 'r fagddu,
Goreu o'i huchder ſydd yn *Nghymru*.

3.

Mae Llongau a Chychod mân a mawrion,
Oddeutu hon 'rhyd For y *Werddon*,
Pob Ydau ffrwythlon i wneud Bara,
Caws, Ymenyn, Llaeth, helaetha.

4.

Pobl gryſion o'r ûn Greſydd,
Yn dal yn glos i gadw eu Eglwyſydd:
Y mae'r rhai'n yn fawr yn ſychan,
Yn myn'd heb erlid ir ûn Gorlan.

5.

Gwaith y Merched ſwya o'r Flwyddyn,
Nithio a thrin yr ŷd ar Enllyn;

Rhai Gwlanenni y maent iw nyddu,
Ar Brethyn drutta goreu yng *Nghymru.*

Sir Gaernarfon. 68 Plwyfydd.

6.

YN nefa ei hon mae Sir *Gaernarfon,*
Sydd yn llawn o Greigiau mawrion,
Caer yn Arfon Aber-Conwy,
Dyna 'r Ddwy Dref gryfa *'Nghymru.*

7.

Magwriaeth mawr o bob 'Nifeiliaid,
Ceffylau, Gwartheg, Geifir, Defaid,
Llawn Llwynogod fydd o gwmpas,
Y Widdfa Mynydd ucha or Deyrnas.

8.

O *'Fionydd* hyd yn eitha 'r Crouddyn,
Llawer jawn o Wlân ac Enllyn,
Bara Ceirch fydd yma lawer,
O Gaws, Ymenyn a Llaeth lawnder.

9.

Pobl yftwyth bywiog lyfti,
O rai gwrol yn ragori;
Y mae'nt hwy yma'n mynd yn ddiddig,
Dan yr un Bugail ond ychydig.

10.

Y Merched hyn ſy 'Swiod odiaith,
Yn gwneud yn hylaw Enllyn helaeth;
Gwlanenni a nyddant yno enyd,
A Brethynnau pirion hefyd.

Sir Feirionydd. 34 Plwyfydd.

11.

SIR *Feirionydd* uchel Fryniau,
Mynyddoedd lawer part o Greigiau,
Gwelltog, llawn yw o fagwriaeth,
Pôb Anifeiliaid yn dra helaeth.

12.

Mae blawd ac ŷd yn dyfod iddi,
Ac Enllyn fwy yn mynd o honi;
O Gaws, a ymenyn amſer Ffeiriau,
Llawna yng *Nghymru* yw Tre *Ddolgellau.*

13.

O ddeutu 'r *Aran* a'r *Ardidwy*,
Mae'r Defaid cîgog braſa Yng *Nghymru*,
Bara, Ceirch ſy ym mhob Anedd,
Cwas Ymenyn Llaeth ddigonedd.

14.

Pobl lliwis ddigon llawen,
Lleia eu malais a Chynfigen,

Clir

Clir am Ddarllain ac am Ganu,
Ycſolheigion goreu Yng *Nghymru.*

15.

Gwneud Enllyn glanwaith beth aneiri,
O *Nan-mor* hyd ym *Mhen Nantigi* :
Nyddu Gweuoedd wrth *Ddolgellau*,
A Merched *Penllyn* am wau Hoſannau.

Sir Ddinbych. 57 Plwyfydd.

16.

SIR *Ddimbych* yw'r Bedwerydd,
Nid llawer jawn ſy'n hon o Fynydd,
Dyffryn Clwyd a gwaelod *Maelor*,
Nid oes mo'i gwell o Fô'n i Ddofor.

17.

Ar Graig yn *Nimbych* er Hên Oeſoedd,
Yr oedd y Caſtell mwya o'r ſiroedd,
Glwys yw *Gwrecſam* têg eu *Chlochdu*,
Dyna'r Dref ſydd ſwya yng *Nghymru.*

18.

Glô a Chaich ſydd yn hon yma,
Gwenith Côch yw'r llaſur amla ;
Ychydig Gaws Y menin helaeth,
Ac yn aml Boſſel deu laeth.

19.

Mae'n amla 'r Dynion goreu eu doniau,
Heb Lwfon geirwon ar eu Geiriau;
Yn mynd iw Heglwyſydd yn dra mynych,
Ond rhai ſy'n *Ngwrecſam* ac yn *Nimbych*.

20.

Dyna unig Wlad y Lliain,
Aml Hyſwi Troeliau bychain;
Gwneud Gweuoedd culion geirwon Gwlannog
O *Lan-Rhaiadr* i *Lyn-Ceiriôg*.

Sir y Fflint. 28 Plwyfydd.

21.

SIR y *Fflint* ſydd neſa or cyfan,
I allu byw ar ei ſtocc ei hunan;
Glôa Chalch, a Halen, Heiarn,
Coed a Gwair, ac ŷd yn gadarn.

22.

Plwm ac Arian ſy'n rhagori,
Oddiar y Siroedd yn Aneiri:
Y Gwenith goreu yng *Nghymru'n* unman,
Od deutu 'r *Ddiſerth*, *Gro Nant Rhuddlan*.

23.

Er bod y Gwenith gorau yma,
Bara *Myncorn Haidd* ſydd amla;

Ymenyn

Ymenyn Llaeth ſydd or helaetha,
A phringder Caws ſydd yno ſwya.

24.

Pobl weddol Ddeddfol ddiddig,
Mwynwych odiaeth tingu ychydig;
Ond eu bod mewn amryw fannau,
Yn gwneud chwaryddiaeth ar y Suliau.

25.

Nid yw'r Merched hyn drwy'r flwyddyn,
Yn Nyddu fawr Wlanenni a Brethyn,
Golchi Plwm yn ddiſal ddoredd,
A Nyddu Lliain cywrain cwyredd.

Sir Drefaldwyn. 47 Plwyfydd.

26.

SIR *Drefaldwyn* têg Ddyffrynnau,
Lle mae'r Coed ar Tiroedd gorau,
Ceffylau Glandeg maen't yw magu;
Ar Ychain brigog tecca Yng *Nghymru*.

27.

Gwmpas *Dyfi* a *Chedewyn*,
Dau le hyfryd Dolydd *Hafren*,
O *Llanidlos* i *Fachynlleth*,
Defaid lawer Gweuoedd odiaeth.

28.

Pob ydau rhywiog rhŷg ſydd amla,
Gwenith nawſedd ei phen iſa;
A thri Enllyn ar eu Byrddau,
Dyma 'r Wlad ſy 'n ffario orau.

29.

Pobl lan Fonddigedd hefyd,
Ond bod rhai yn tyngu yn ynfyd;
Yn mynd ir Llannau'n abl llawnion;
Heb fawr au gwrês dynny'n groeſion.

30.

Mwya ſwydd y Merched hynny,
Gwneud Gwlanenni meina Yng *Nghymru*,
O Graig Wreiddin i *Llangynnog*,
Nyddu Lliain * *Hemp* godidog. * Cywarch.

Sir Faeſyfedd. 52 Plwyfydd.

31.

NESA i hon yw Sir *Faeſyfaid*,
Lle mae llawer jawn o Ddefaid,
Cwlybion Gaeau ſychion Fynydd,
Rhywiog yw eu bryniau a'i bronnydd.

32.

Gwair ac ydau Part o Goedydd,
Cryn fagwriaeth aml Fynydd;

O

O Pont y *Clâs* i Blwyr *Bigeildu*,
Y mae'r Gwlân rhywiocca Yng *Nghymru*.

33.

Pob mâth ar Yd sydd yn hon yma,
Ond Bara Rhŷg yw'r ymborth amla,
Ymenyn Caws sy'n aml ynddi,
A bwyta yn Newyddion rai o'r rheini.

34.

Saisnigaidd jawn yw'r Bobl hwythau,
A digon mwynion ym mhob mannau:
A rhai am ryw satterion cwmbrus,
Yn mynd yn aml o flaen Ustus.

35.

Rhan o waith y Merched cywrain,
Iw Nyddu peth iw rhaid eu hunain;
Trin eu gwlân i fynd ir Farchnad,
A gwau'r Hossannau oddeutu 'r Rhaid.

Sir Frecheiniog. 61 Plwyfydd.

36.

WRth ochor hon mae Sir Frecheiniog,
Mynyddoedd mawr ar mannau cribog,
Y Muallt Rhosydd Tiroedd oerllyd,
Rhai Mynyddau a Choedydd hefyd.

37. Tiroedd

37.

Tiroedd da a Choed diogel,
Or *Geili* i *Dalgarth Cerrig Hywel*;
Ac o gwmpas *Aberhonddu*,
Dyna'r Dref gyfoethocca Yng *Nghymru.*

38.

Ac yn hon mae Proteſtanied,
A thair Eglwys iddynt ſyned;
Ond hyd eu Gwlad mewn amryw fannau,
Mae rhain Pregethu hyd eu Teiau.

39.

Haidd a Gwenith, part o Rygau,
Caws a Ymenyn ſydd mewn mannau;
Purion Bara Ceirch Diogel,
Ynghwmwd *Muallt* ac yn *Llywel.*

40.

Gwna'r Merched hyn yn gofus gyfan,
Bob Gwaith Hyſwi i mewn ac allan;
Gwau 'r Hoſſannau drwy'r holl flwyddyn,
O *Lan-Fair* hyd yn *Aber-Gweſyn.*

Sir Fynwy. 127 Plwyfydd.

41.

SIR *Fynwy* ar hon ſydd yn Terſynu.
Dy na'r Fro Gyfoethocca yng *Nghymru*,

Gwenith

Gwenith lawer jawn ſydd ynddi,
Dyffrynnoedd têg oddeutu'r *Fenni.*

42.

Gwair ac ŷd a llawn o Goedydd,
Porfa lâs ar lann afonydd;
Pob gwaith Heiyrn y ſydd ynddi,
A llawer jawn yn mynd o honi.

43.

Pob ŷd ond Rhŷg ſy'n hon yn tyfu,
Ar Bara Gwenith goreu yng *Nghymru*,
Ychydig ymenyn a chaws caledion,
Cawl y cenni Diod ddigon.

44.

Calch ir Tir a Glo ydwyw'r Tanwydd,
A hwnnw i ſpario llofgi'r coedydd,
Pobl weddol têg i ymddygiad,
A rhai'n ddylion am Addoliad.

45.

Gwaith y Merched hyn yn union,
Nyddu rhai Gwlanenni meinion;
Trin ſidir o'r Perllannau tewfrith,
A gweithio Heittiâu Gwell y Gwenith?

Sir Forganwg. 118 Plwyſydd.

46.

NESA i hon mae Sir *Forganwg*,
Ar Tai gan Galch yn Wynion amlwg,
Ugain caſtell a fu yno i fynu,
Am Lô a chagch mann llawna yn *Nghymru*.

47.

Gwartheg mawr yn gôch a Brithion;
A blew crin a phennau crynion;
Glanweithia eglura Tref yng *Nghymru*,
Gloywa Tai yw *Abertawy*.

48.

Bara Gwenith amla llafur,
O Dre *Caerdyf* i flaen *Brôwyr*,
Caws rheſymmol Ymenin dichlin,
Mewn Piccynnau Cawl y cennin.

49.

Llawen Bobl ddoniol ddeunydd,
Mai Tylynnau ar Barwydydd;
Iddynt ganu wrth eu pleſſer,
Enw Dôn hîrfwyn dyna eu harfer.

50.

Mae'r Merched hyn yn anian Eſmwyth,
Yn trin eu Teiau yn lân iw Tylwyth,

Gwau

Gwau Hoſanau a chludo Glô i'r Llongau,
Gwneud Hettiau Gwellt wrth Abertawy.

Sir Gaerfyrddin. 87 Plwyfydd.

51.

MAE Sir *Gaerfyrddin* neſã i hynny,
A honno o Dîr yw'r fwya yng *Nghymru*
Defaid lawer ſydd yn bendant,
O amgylch *Yſtrad ffin* a *Phumſant.*

52.

Têg yw'r Tai ſy 'n Nhref *Gaerfyrddin*,
O *Heol Awſt* i *ſtrit* y *Brenin*;
Ar *Bag-Pipes* ſy 'n amla 'n Canu,
I'r Priodaſau mwya 'ng *Nghymru.*

53.

A phump o'i Threfydd ar Lan *Tywi*,
O *Laçharn* hyd yn *Llanymddyfri*:
Gwrychoedd union gwedi eu plannu,
Am hyn yw'r Hwſmyn goreu 'ng *Nghymru.*

54.

Pob llafur lawer ſy'n hon yma,
Bara Haidd a llêch yn amla,
Caws 'Menyn ſy'n ei Goror,
A chawl Erfin yn ei dymmor.

C 55. Gwaith

55.

Gwaith y Merched hyn yn union,
Brethynnau têg Gwlanenni breision,
Ac yn eu blaen yn gwau 'r Hosanau,
O *Gaio* hyd *Gîl y Cwm ym Middfa.*

Sir Aberteifi, 64 Plwyfydd.

56.

NESA i hon, Sir *Aberteifi,*
Plwm ac Arian lawer sy ynddi;
Mynyddoedd mawr a gwelltog meithion,
O *Glydogau* i ben *Plumbumon.*

57.

Ceffylau a Defaid caledion beunydd,
Sy 'mhob cwrr or môr i'r mynydd;
Maen' hwy'n fuddiol jawn i feddu,
I'r sawl a'u pryno'n orau 'ng *Nghymru.*

58.

Caws Ymenyn a chawl Erfin,
Ceirwch mân a Haidd a Rhygau dibrin,
Wrth fesur Têl am Fara i'w Tylwyth,
Gwerthu'r llall yn *Aberystwyth.*

59.

Y Bobl hyn sydd yn rhy-drwm,
Pan ddel cydio ymaflyd codwm;

Hwy

Hwy 'wnant yn fanwl ddal i fynu,
Ar Boneddigion hardda 'ng *Nghymru.*

60.

Gwau Hofanau 'r Haf mae'r Merched
At Ffeiriau 'r *Rhôs* gan lawer Hyfwi, [rheini
Rhai Gwlanenni at eu pwrpas,
A phawb i'w Dylwyth Frethyn Dulâs.

Sir Benfro, 145 Plwyfydd.

61.

MAE Sir *Benfro* yn nefa i hynny,
O Fôch ac Yd y lawna 'ng *Nghymru,*
Meufydd Mawrion fychion llydain,
Plauwydd union o'r Coed Du-ddrain.

62.

Caws a 'Menyn fydd yn brinna,
Bîr a geir a'r Bara garwa;
Ym *Mhenfro, Dinbych, Hwlffordd, Dewi,*
Y Cig a'r Pyfcod fydd i'w pefgi.

63.

Mae 'r rhai'n yn Bobl iachus bybyr,
Heb geifio fawr o'i feigiau'n fegur
Gan drin yr Yd yn bennaf beunydd,
A rhai'n ei gludo i lawer Gwledydd.

64.

Mae rhai a'u gyrfa tu ac Arfon.
Hyd gwr y Môr i gaerau *Meirion*,
Ac Enllyn adre a ddônt ddigonedd,
Am ydau'r Gwanwyn o Dir *Gwynedd*.

65.

Mae gorchwyl odiaeth y Merchedau,
Yw mynd yn blaid i raid yr ydau,
Gyda'u Hyſwiaeth helaeth haelwych,
Ac ir Llîn Fonedd Darllaw 'n fynych.

Dafydd Thomas a'i Cant.

Dechreu.

MAE Rhai o'r *Cymru'n* byw yn ddiſtaw,
Gynt a lediwyd i Dir Llydaw!
Ni wnânt yn filain ddim Rhyfeloedd;
Yno er eitha neb rhyw Jeithoedd.

2. Mae Gwlad y Cymru'n anian gynwys,
A fu'n rainio dros yr ynys,
Bymtheg Cant o flwyddau hirion,
Cyn dyfodiad neb o'r Saeſon:

3. Er cael o'r Seaſon trwy gyfrwyſtra,
Olud aml y Wlad yma,
Daw dial cofus gan Dduw cyfion,
Oll o herwydd Cyllill hirion.

4. Rhoed

4. Rhoed i ni rybudd Diharebion,
Fod Duw'n gwared y rhai gwirion,
Er iddo eu cospi i'w puro'n rhysedd,
Hwy a gânt ragoriaeth o'i Drugaredd.
5. Fe ddywed rhai'r awn mewn amser,
Yn ein hol i fyw i Loeger,
Nis gwyr neb ond Duw'n ddie,
Ein diweddiad rhaid yw adde.
6. Fel dyna hanes Gwlad ein hyna,
A fu 'n byw yn *Lloeger* a *Chaerdroia*,
Rhown Weddi i gyd ar Dduw yn gadarn,
Am Râs a Heddwch fyth hyd Ddydd-farn.
7. Os Daw gofyn pwy a'i canodd,
Dyn yn fanwl a'i trafaeliodd,
Yn rhoi o arwydd ar ei Eiriau,
Y gwir heb goll yn orau y galleu.

D. T.

Cyngor i Annog Pobl i bedio a Thyngu; ac i gadw'r Sabboth yn well nac y maent yn Nghymru.

GWrandewch Gynghorion purion parod.
I gyd yn gyson gwedi eu gosod *Matth.* 5,

Rhag

Rhag Llyfon gwiliwch fydd o'r gwaelod, (34.
Mor ddrwg yn tyfu ar flaen y Tafod.

2. Rhai'n Tyngu a maldar efo eu medd-dod
A'r llaill yn furion am eu forod,
Marw ddrwg anial ddyfal Ddefod, *Jago.* 5, 12.
Sydd yn eu bachu ac aml Bechod.

3. Bydd Oftyngedig ddiddig ddigon,
Ofna heb gilwg Dduw'n dy Galon *Diar*, 15,
Nag arfer lêf ac ofer Lyfon, (33.
Gwna fel doeth-was drwy Fendithion.

4. Y Doeth a deithia i'r golau gwelwch,
Yn athro i'w Frodyr trwy hyfrydwch 1 *Joan* 2
A'r ffôl fel Dall a â i dywyllwch. *Phil.* 2, 15.
Ni wna ddehori oi ddihirwch. (11.

5. Y rhai fydd ffyddlon Weifion Jefu,
Enwog wrol yn ei garu; *Luc.* 11, 28.
Ni arferant angall eiriau Tyngu,
Ond plant y fall fy'n gwneuthur felly.

6. Araith dda fy'n Euro eu Thylwyth,
Hwy fyddant wedi'n oefi'n Efmwyth,
A'r anudonllyd â yn danllwyth, 1 *Bren.* 21, 13.
Llwm eu rwydau lle y mae'r Adwyth.

7. Pa ham mewn gwafc y difgwil Dynion;
Ar Dduw eu gwared fel rhai gwirion,
Pan yn ffrom-wyllt yr offrymmon, *Diar.* 1, 28.
I'r Ddraig eu Eneidiau i ddrwg anudon?

8. Dynion

8. Dynion llegis er bôd llygaid,
Heb geisio gwilio i allu gweled, *Jer* 5, 21, 22
A rhy glaear chwaith i 'mglywed, *Mat* 13, 14.
Gyngor Genau Duw Gogoned, *Esay* 6, 2, 10.
9. Ni wiw am Gyngor gwn mo 'i Gynnig
Gan wall adwyth i golledig, 1 *Sam.* 25, 37.
Ni waeth curo wrth un or Cerrig,
Na dweud i Nasiwn ry wrthnysig.
10. Diystyru'r Sabbath mae'n bossibol,
Chware a thyngu ymdeuru dirol,
Heb Edifeirwch i'r Daiarol, *Ez.* 20, 13.
Hynny at ffyrnig wlad Uffernol.
11. Cadw'r Sabbath yn sancteiddiol,
Na ymyr am Eiriau i wâg ymorol;
Ni wna budr siarad Bydol, *Esay.* 58, 13.
Fyth wasanaeth Defosionol.
12. Bydd ar Suliau y borau'n barod,
I ddarllain, gwrando ar eiriau'r Drindod,
Dod am y fawr-daith dy Fyfyrdod, *Dat.* 1, 3.
Mewn ufudd awch am Nefoedd uchod *Col.* 3 1.
13 Myfyria'nghyfraith eurglyw'r Arglwydd
Abl hawl y Bibl hylwydd. *Psal.* 1, 2.
Sy'n cyfeirio sŵn cyfarwydd;
Oll a didwyll i le dedwydd.
14. Cofia'n sad ddiweddiad Dyddiau, *Luc.*
Yn Wr da lanwaith ar dy liniau; (11, 9.

A Gweddi buraidd nôs a Borau. *Mat.* 24, 42.
O ran mor yngwrth y daw'r Angau.
15. Duw tro ni o gamwedd oll yn gymwys
I rodio Llwybrau golau gwiwlys, *Rhu*.12. 12.
I gael drwy wirffydd fynd i orphwys,
I'r buredig uwch Baradwys.

Dafydd Thomas a'i Cant.

Cariad heb ddim brâd i'n brô, rhwng Dynion,
A Duw a'i danſono,
Gwir heddwch a gyrhaeddo,
Oes gyfan grauan a grô.
Gogoniant Foliant yn filoedd, fyth,
A fytho i Dduw'r Nefoedd;
Trwy fawl râd i'r Tri fel 'roedd,
Naws euſoes yn Oes Oeſoedd.

D I W E D D.

Gelwyd y
Royal Denbigh Rifle Regt
o'r Militia
i ymgorffori
i Wrexham Gorphenaf 8d
1815
athrant-oedd yno i Caerlleon
Dayad Mawrth Gorph. 18d

Gadewais i [illegible] i Caerlleon
Dayi [illegible] y [illegible] o'r Gorphenaf
i [illegible] [illegible]
ar hyd y ffordd i [illegible] y Gwydd

[illegible] y Calyn

24 Llun To Wrexham — 12
25 Maw Elesmere — 12
26 Mer Salop — 16
27 Iau Much Wenlock - 12
28 Gwe Bridge North — 8
29 Sad Kidderminster 14 } 28
30 Sul Worcester — 14 }
31 Llun Tewksbury — 15 Good }
1 Maw Cheltenham - 8 Good }
2 Mer Cirencester 14 the old road
3 Iau Swindon - 16
4 Gwe Marlborough 10 Bridle – turnp... 1
5 Sad Ludgershall 14 }
6 Sul Andover — 7 }
7 Llun Winchester 14
8 Maw Southampton 12 Over the Water
9 Mer [fr. 15 to 18 miles] to Cowes & return
10 Iau To Winchester & c&c]] Marlbor
11 Gwe Cirencester
12 Sad Worcester — My Regular
13 Sul Wenlock — time to be in
14 Llun Wrexham — Chester
15 Maw Denbigh — Monday August 2
&c &c &c — Always

the Days that ye deer [illegible] in the
Year 1772 Bristol

[illegible] — Day Month — Miles — [illegible]
[illegible]
[illegible] — 1 — Jan. — Not Known
[illegible] — 6 — do — 4 — Exeter
do — 10 — do — 151 — Kenton or Kendle
do — 14 — do — 140 — Walls
do — 19 — do — 64 — [illegible]
do — 26 — do — 186 — Grays
do — 31 — do — 4 — Pool
[illegible] — 3 — Feby — 15 — Bath
[illegible] — 8 — do — 5 —
[illegible] — 14 — do — 43 — Wells
[illegible] — 20 — do — 2 —
[illegible] — 23 — do — 154 — Kenton
[illegible] — 1 — March — 4 — [illegible]
do — 3 — [illegible] — 150 — [illegible]
do — [illegible] — [illegible] — 148 — Denbigh {[illegible]
[illegible] — 14 — do — 1 —
[illegible] — 18 — do — 145 — Warwick
[illegible] — 23 — do — 5 —

[illegible] y Canlyn
y [illegible] [illegible] yr [illegible]
allan o Waith Mr. Salmon
[illegible] Geo. and Hist. Grammar.
y [illegible] Aug. 1756. t.d. 492.

yr Aipht

Ei Sefyllfa ai Maintioli:

Rhwng {30 a 36} hyd. Dwyr. } ac yn { 600 Milldir o h[...]

Rhwng {20 a 32} lled. Gogl. } { 150 Milldir o le[...]

terfynau] yn cael ei therfynu gan for Canoldir, o du y gogledd; gan y mor goch, o du y Dwyrain; gan Abyssinia, neu Ethiopia uchaf, ar y Deheu; ac anialwch Barca, a rhanau anwybodus o Africa, ir gor[...]

Ei rhanau. Ei hadranau. ai phrif trefy[dd]

Y Gogleddawl ranid a'l gwrys	yr aipht isaf	Grand Cairo hyd. Dwyr. 32. Lled. Ogl. 3[...] Bulac Alexandria Rosetta Damietta.
y Deheuol ranid a'l gwrys	yr aipht uchaf	Sayd neu Thebes Coffir.

yr Afon Nile] y Nile yw yr unig afon yn y wlad, y mae 'n tarddu allan o Lyn yn Abyssinia, ai rhediad yn Cammu

...yn cyffredinol ir gogledd, yn clytiod i
...mewn ir aipht, ac yn rhedeg o'r dehau
...r gogledd ar hyd y teyrnas, ac yn
...marllwys ir Dwyreinfor (Levant) yn
...mrywiol ganghenau, a'r rhai penaf o
...onynt yw Rosetta a Damietta, a enwir
...felly oddiwrth y trefydd sydd yn sefyll arnynt;
... ddwy gangen hyn sydd yn trefnu tair
...ornel, a elwir Delta, ynghylch cant milltir
...dir oddiwrth ei gilydd a'r ei disgyniad ir
...mor. ay Nile sydd yn dechreu codi pan
...mae'r haul uchaf yn Ethiopia, a'r glaw
... ...yn disgyn yno, sef tua diwedd
... ac a canlyn i godi hyd medi neu hydref;
...pryd y torrir y bryniau, ac ei gollyngir
... Khalis, neu'r prif camlas, yr un a
... ...trwy Cairo, ac oddi yno a gyfrenir
... ... a'u gerddi.

Ei chodiad arferol yw 2 troedfedd yn
...ddi, ac ar amser hyny y parhâ i
...ihau hyd diwedd Mai y flwyddyn canlynol,
...pryd y dychwel y llif yn ol.

Y ... y ... y Nile yw priodol
... ... a weinyddir gyda gwyl a than...
...dangosiadau, a phob modau eraill o

lawernid cyhoedd, megis'r oedd gynt; afrifed o Gamlesi sydd agoredig yw troswlwyddo i holl ranau'r wlad, yn ol Pharoaiu dilys cyfarwyddiadwy.

Rhaiadrau'r Nile.] Megis am rhaiadrau yr afon Nile fe ddarfu awdwyr hen a diweddar eu mawrhygu mor wasdadraffol hysbysu in ir dwfr ddysgyn oddirfawr uchder, a bod Pobl yn byddaru wrth eu swn, Dr. Shaw a sicrhâ i ni ir gwrthwyneb, nid ydynt ond disgyniadau erfeinol dwfr a gyfarfyddir yn aml mewn afonydd Mawrion, mewn lleoedd y gweswyr ychydig ar y ffrydiau, ac maent yn fordwyol, fel yr a Lychod heibio iddynt yn ddiberygl; ond pa un a welodd y Dr. hwy pan fydden y llif yn ei uchder neu yntê pryd y'r oedd yr afon yn isel, nid yw yn mynegi ini, a rhaid yn sicr i hyn peri llawer o wahaniaeth; Ond yr hynafiaid eu hunain a gydnabyddant i Gychod fyned heibio iddynt, ac felly

mae'n llwyr Debygol nad ydynt yn
syrthio o fath uchder ac mae rhai Awdwyr
yn ffugio eu bod; a'r beth sydd yn sier=
hau hyn yw, Dygiad y Pilerau mawrion
(a'r Obelisks) o'r Greigiau Mynor yn'r
Aipht uchaf, a'r y llif-ddyfroedd i waered
Nile megis y darfu ydynt gynt, llawer
o'r rai oeddynt yn bwyso miloedd o bwysi,
ac ydynt yn aros etto yn ag ynghylch
Alexandria a Rhufain.
(yr Awel.) y Rhan fwyaf o'r Aipht sydd yn
Gorwedd mewn Dyffryn rhwng Greigiau a Myn=
ydoedd o du'r Dwyrain, ac anialwch tywodlyd Lybia
a Barca o du'r gorllewin, y mae'n dirfawr
boeth rai misoedd, yn Neillduol Ebrill a Mai
pryd maent yn cael eu blino hefyd gan wyn=
toedd Boethion; Yr amser hyn mae'r tywod
yn cael ei yru'n Cymylau o amgylch, y
Bobl ydynt braidd yn Cael eu deiu, ac maent
yn fwy Darostyngedig y pryd hyny, nag un rhan
arall o'r flwyddyn; Ond gan Cynted ac dechreu
r Nile godi a lliso tros ei glennydd y Diflanna
r afiechyd (hyd yn nod y Pla b[illegible] un sydd

yn ymweled a hwy bob chwech neu saith
Mlynedd.) Anfynych y gwlawia yn'r Aipht
uchaf, neu yn un rhan o'r wlad ddiarfor=
=dir. yn'r Aipht isaf ar brydiau y gawod a,
ond nid yn aml; maent yn llwyr ymddibyn
am ddwfr o'r Nile i Gynyddu ffrwythlon
y tir.
Y tir [fail] ai cynydd) tir y o'r Aipht
gan Peilled ac mae'r llif yn Cyrredd, a drefn
gan y llaid fydd y Nile yn ei gario, ac y
Marn y Dr Shaw y tir yn y'r Aipht isaf
trwy hynny fydd llawer uwch nag ydoedd
gynt, ar brydiau yn cael chwaneg atto bob
blwyddyn; ond os ystyrir y faith lenlliwiadd
rai brydiau a caria i ffordd cymmaint, neu
fwy o ddacar nag maent yn ei ddwyn, ac fe
allai nad yw y tir lawer uwch nag oedd yn
y cyntaf; pa fodd bynnag Pawb a gyttuna
fod y llif yn maethu y tir yn rhagorol
o'r ffrwythlon. Gan gynted yr ymad y dyfre=
=oedd, mae gan yr Hwsmyn yn ei gwneu
heblaw llyfnu eu hyd a hadau eraill yn y

laid, Weithiau yn Gorfod tymmheru y llaid
a thywod, rhag ir ŷd fod yn fargmwd gan
ormod brasder y tir; ac mewn Mis neu
ddau, y Meusydd a orchgyddir gyda phob
math o ŷdawn, Pys, ffa, a ffrwythydd
eraill; ar lle na hauwyd, eu Borfeu-dir
sydd gyffaethog o Borfa; yn Hydref a
Chachwedd y Gwenith a'r haidd a heuir,
a'r Rice, llin, a chywarch ynghylch yr un
amser; yr Rice a dyf yn y dwfr, yn benaf
a heuir yn'r Aipht isaf. eu Hanifeiliaid
a troir allan i Bori yn Tachwedd, ac a
barhant nes dychwel y llif, ai cynhaua
sydd arferol a bod yn Mawrth ac Ebrill.
Yr Aipht isaf sydd oll ynfor pan fydda'r llif
n ei uchder, heb ond yn unig y Caerydd. a
Threfi au ffrwythydd ~~[illegible]~~ yn dangos,
n cymysgedig a threfydd a llanau, a adeiliadwyd
aill ai ar fryniau Nattuviol neu Wneud-
edig; ac ar dymor sych y Rhyw yn [illegible] d yn
rodi haridd, Meusi [illegible] a gwair gloddiau
a helaeth Ddiadelloedd a diadell a mintaioedd
anifeiliaid, y lle fawn yr holl y amser

tan ddwfr, yna maent yn Wlyb ha...
(megis) deiliaid tawel, ag awyr pur, a per=
=aroglir a Blodau Oranges, Lemmons, a ffrwyth=
=ydd eraill. Pan fyddo eu hyd-rawn, (Pulse)
Melons, Sugar-Canes, a planhigion eraill eisieu
dwr, maent yn ei dwrglwyddo o'r dyfr-cistiau
ar hyd mân camlesi iw Meusydd a'u Gerddi;
lle heblaw y ffrwythydd a crybwyllwyd eisoes,
mae ganddynt palmwawn, (Dates) Llyriad, (Plantains)
Grawnwinau, (Grapes) Ffigys, a choed Palmwydd,
o ba rai ystynir Gwin y Bobl Cyffredin
ydynt yn byw rhan o'r flwyddyn ar Cucumbers
ac nid ydynt yn gweled unrhyw Anghyfleusdra
oddiwrth y math hwn o ymborth. y Trefydd
Mwyaf yn yr Aipht ydynt.

1. Grand Cairo, un o'r Dinasoedd mwyaf yn y Byd, Dywedir y Cynnwys fwy na dau can myrddiwn o Bobl, fe i hamddiffynir gan Castell o Ddirfawr helaethrwydd, y muriau ydynt deir Milltir o amgylchiad, ymha un mae ffynnon 100 llath o ddyfnder, a elwir ffynnon Joseph, o'r braidd yr unig ffynnon yn y Deyrnas.

2. Alexandria, y brif ddinas gynt, ac
etto yn Borthladd Cyfrifol, sydd yn gorwedd
ar fror y Dwyrein-for, Ddeugain Milldir i'r Gorllewin
i'r gangen Eithaf Gorllewinol y Nile, 120 Milldir
i'r Gogledd Ddwyreiniol o Cairo. Cyferbyn a'r
dinas y gorwedd ynys Pharos, ar ba un yr
adeiliadwyd Tŵr, neu oleudŷ, er gyfarwyddyd
i Morwyr, ac a Cyfrifwyd yn rhyfeddod y Byd;
oddiwrth hwn yr Enillodd y cyfryw Tyrau yr Enw
Pharos, braidd ymhob man; yn neillduol
hwnw yn Messina yn Sicily. Yn Alexandria
mae'r gwir Biler ardderchog elwir Pillar
Pompey, a Nodwydd Cleopatra, yr hon sydd un
garreg o rhuddfynor, 90 Troedfedd o uchder, a 25
o gylch, o brif Gerfiadwaith a sylfaen, hardd=
edig of arwydd-luniau.

Y Ddinas a adeiliadwyd gan Alexander, nea
am ddiffynir gan dyrrau lluosog, o dan y rhain'r
oedd pydewau yn cael eu cynnwysgadw gan
ddyfrffosydd o'r Nile, ychydig o rhain sydd [illegible]
ar-ros hyd yn hyn. Wedi Dinystr Tyre a Carthage,
y Ddinas yma fu fwyaf ei Masnach [illegible]
yr un Porthladd yn y Byd adnabyddus; y
per-lysieu-rau (spices) a chyfoethog Fasnachyddiaeth

y Dwyrain, a ddygid yma trwy ffordd Arabia ar Mor coch.

3. Rosetta sydd Tref Porthladdog, yn sefyll ar gangen orllewinol y Nile, ir Dwyrain o Alexandria.

4. Damiatta, neu Pelusium, sydd yn sefyll ar gangen ~~Ddwyreiniol~~ y Nile, pedair Milldir ir Dehau o'r ~~Dehau~~ Dwyrein-for. (levant.)

5. Bulac, sydd yn sefyll ar y Nile, ddwy filldir ir gorllewin o Cairo, ar dref Porthladd iddi.

6. Sayd, neu Thabes, sydd yn sefyll ar dy'r gorllewin i'r Nile, ddau can Milldir ir Dehau o Cairo.

7. Cossir, Tref Porthladdog, sydd yn sefyll ar oror gorllewinol y mor coch, drichan Milldir ir dehau o Suez.

Anifeiliaid] eu hanifeiliaid, hebla ceffylau, ychain, Defaid, a'r Carw-filod, (Camels,) cyffredin ir gwledydd cyfagos, a ddarluniwyd ymmysg eu hynodolaethau; ond yn unig gellir sylwi yma, eu hanarferol

...ywogrethi o' lynod, a Cyflawna eu taith
...n hynod, a'r Cristnogion, fel mae'n ymaw...
...ingos, nid ydynt oddefedig i fferriogrethu ar-
...n anifael arall. yr ymdeithydd a cyfloga
Berchenog yr anifael (neu ei wasanaeth)
pan lysdded a'r Asyn, yr hwn a he thia
...r ol yr anifael, ac ai Symbyla yn ei
...blaen.
Masnachyddiaeth] Mae gan y
Turky Company uchelwaer yn Cairo
er amddiffyniad eu masnach, ba un
heblaw Cynyrch y Wlad, a Gymmerir yn benaf
mewn Coffee, peraroglderth, (Frankince-
nse,) Suddiaeth, (Gum,) Defnyddiau Meddyg-
ol, a Masnachyddiaeth arall a ddygir o
Arabia a'r Gwledydd Dwyreiniol, yr hwn
a Drosglwyddant i Europe.
Llywodraeth] er pan Cafodd Ymerawdwyr
Tyrciaid reolaeth y deyrnas hon, y maent
yn wastadol yn ei llywodraethu a rhaglawiaid
(Vicerory) Cyfenwir Bassa 'r uwchderchog
Cairo; ond fel mae'r Aipht yn rhanedig

i amryw Dwysogaethau; Tywysogion hyn y'ynt penaduriaid yn ei berthynol Dir=
=iogaethau, Nid yw y Bassa yn trefnu dim heb eu Cydsyniadau.

Ac ni faidd y llywodraeth Dyrcaidd orlwytho y Pobl hyn a threthi, rhag ofn Gwrthryfel Cyffredinol; yn Cymaint mai ond yr hyn a wasga'r rhaffrenin ai Creaduriaid yn anghyfreithlon oddiarnyn yr holl Cyllid, codir gan y llywodraeth, nid yw'n llawn canMyrddiwn o'n haniam ni, o pa un dwy ran o'r dair a treulir o fewn y Deyrnas, ac nid oes dim yn rhagor na'g un ran o'r tair yn dyfod i trysorfa'r arddercho Arglwyddiaethwr.

(Grand Signior.)

Eu Cyfiawnoedd. Mae Byddin o Dyrciaid o dan lywyddiaeth y Bassa, o'r Arddercho, Cairo, er Cadw ymddybyniaeth y Tywysogion Aiphtiaid ar Lys yr Arddercho Arglwyddiaethwr; Ond ei cadwinab yn cymal heddychlondeb ymysg y Twysogion hynu, Sy'n cyframmu

mwy i sefydliad ei allu nai fyddin; ac er
ir holl gyfrwysdra Tyrcaidd, y swyddogion
ydynt weithiau yn ymwrthod a'r Bassa,
ac yn peri ir Arlderchog Arglwyddiaethau
neu llywodraethwr arall fyddo mwy
cymmeradwy ydynt hwy. Nid oes yn
bresenol gan yr Aiphtiaid ddirgelynion
tramor, ond maent yn fynych mewn rhyfel
cartrefol yn eu plith eu hunain, neu
mewn ymdrechiad gyda'r Bassa i Tyrcaidd.
Y Trigolion a'i harferion.} Fel mae'r Aipht
yn cael ei thrigfannu gan wahanol genhedloedd
fau eu maintiolaeth, glendid, ai harferion ydynt
amrywiol. y Tyrciaid a'r Arabiaid nid ydynt
yn debygu yn eu gwneuthuriad, hwynebryd,
na'i harferion, neu ffordd fyw y naill i'r llall.
Y Tyrciaid ydynt dal, glân, prydweddol, ac yn
Gwisgo megis y a Tyrci: yr Arabiaid ydynt
felyn-ddu, ac yn ddynion a lodau bychain, yn
byw mewn Bebyll tros yr holl wlad, wedi eu gosod
mewn dull cylchaidd, yr hwn fath a'r Entrey
a alwant Douar; maent yn gorwedd a'r
llesg-wely, (mattis), a'r gwrthbanau a troeant
yn eu cylch y dydd, sydd yn gwasanaethu

ydynt ŷw Gorchgyddio y Nos. y Tyrciaid
a'r Arabiaid ydynt yn coedi yn (?) eu,
gan Wastadol Ofalu am eu haddoliadau
Cynnar ar dorriad y dydd, etto cannol dyd
machlud haul, a gosodiad y Wiliadwriaeth
hyd y bydd yn Dechreu Nos-lu. Gwragedd y
Aiphtiaid y rhai nid ydynt yn dyfod allan
i'r haul ynt gan laned o ran gwendid ac ydynt
o ran Wynebryd, a diamau mai un o'r unrywi
oedd Cleopatra, yr hon a caethiodd ddau
Ymerawdr, y Bobl cyffredin, y rhai ydynt
anedigol yn y wlad ydynt bron mor felyn-
=ddu a'r Arabiaid yn y cyfryw Beth hyn.

Gypsies.] o'r wlad yma y daeth y Lemw
a crwydrol elwir Gypsies; mae Gymmy llawer
o Gypsies, neu Gypsies ffugiol, yn wasgaredig
ymhob Deyrnas yn Europ ac Asia, fe'i
Gelwid Zinganees gan y Tyrciaid, oddiwrth
eu Cadpen Zinganeus, yr hwn, pryd y
Darfu Selimus ymerawdr y Tyrciaid (Sulta
n) oresgyn yr Aipht yn nghylch y flwyddyn 1517,
a wrthodd ymostwng i fa'u y Tyrciaid, ac a
giliodd i'r anialwch, lle buant yn byw ar

ladrad a Lyfrydiaeth, ac yn fynnych a ddeu=
ent i lawr i Wastadedd yr Aipht, gan
gyflawni llawer o ysgelerni yn ystafydd ar
lan y Nile, dan lywodraeth y Twrc. Ond
darostyngwyd, ac a alltudiwyd o'r Aipht, hwy
a aethanasant i wasgaru eu hunain,
yn rhannau lychain, i bob Gwlad yn y
Byd adnabyddus; ac fel yr oeddynt yn
dyfod o'r Aipht, Gwlad lle'r oedd y Gel=
fyddyd Ddirgel, neu Ddichell ddu, fel ei
gelwid, tybiwyd wedi cyrraedd i fawr berffaith=
rwydd, a pha un, yn yr oes gynt hyny,
oedd mewn mawr Gymmeriad gydâ'r Bobl;
bob crefyddau a daliadau, hwy cawsant
trigolion pa wlad bynnag y deuent, yn
wr hawdd eu twyllo.

Difyrwch.] Hudolwyr, adroddwyr
Straeon, a Datganwyr Cerddi, sydd yn heol=
ydd Cairo, gan gystled a Dinasoedd eraill;
ond y peth a ymddengys yn neillduol
ddynt iddynt eu Dawns Camelod, a
addysgir i ddawnsio trwy eu gosod ar lawr
boeth; hyn a rydd iddynt lawer o ofid,

hwy Godant i fynu eu goesau fel pe pa[illegible]
yn Dawnsio, a Dyn yn Gyro Dabwrdd yr
un amser: ac felly bryd bynnag y Clyw y
Creadur Sain y Dabwrdd, yna y teru i
Ddawnsio. eu tyngedfaeddroeddwyr a ddygan
i fynu adarn, a addysgant i Gario Dibyn[illegible]
bychain o babyr att y rheini fydd yn dyfo[illegible]
atynt i ymofyn pa lwyddiant ai gyffarfy[illegible]
o fewn pa un y gant ei tynged Da neu
Ddrwg yn Ysgrifenedig, ac i hyn y rhodd[illegible]
mawr ered.

Hynodiaethau.) hynod pethau'r
Aipht, heblaw a grybwyllwyd eusoes, ysy[illegible]
y Hippopotamus, neu Ceffyl-yr-afon; i mae
'n fwy nag ych, eivan olaf yn debyg i yn[illegible]
ai ben fel ceffyl; ai draed yn fawr a
phythur gydag ewineau neu crafangau, a[illegible]
rhynffon fel carw-farch: (Elephant) mae
Anifail cyntefin, yn dyfod o'r afon, ac
yn ymborthi ar las-wellt y dir: nid oe[illegible]
ond ychydig o honynt, ac anaml eu gwelwyd.

n y blynyddau diwaethaf yn'r Aifft;
d, Capt. Rogers a adroedda, iddo ef
eled y Cyfryw Anifail yn Terra de
Natal, y r han ddeheu ddwyreiniol o
Affrica, ac eraill a welwyd yn Mhen=
-tyn y Gobaith Da. (Cape of Good Hope)
y Crocodile, ydwyf yn Cymmeryd i fod
n rhywogaeth o Alligator, paraid
dyrit cyffredin i Cegau afonydd yn y
wledydd mwya' gymmed; hwn hefyd sydd
readur Cyntefin o fawr hyd, rhai o
onynt yn ugain troedfedd, o ddull
ennaugog, gyda phedwar o draed byrion
eu crafangau, ei gefn a wisgir gyda
rath o cen anrhaeiddiaeth megis gwisg
yfel neu arfogaeth; maent yn aros
n cuthysglyfaeth yn yr hesg, neu
rhiwelo arall, ar odrau'r afon, ac,
n dra thebyg i gorph hen bren, raipryd=
iau yn peri Syndod i'r Teithydd anochel=
gar, gan cyrchu arno ai lyncu yn Cyfa,

fel y dywedir; ond ychydig o honynt sy o'r fath faintioliaeth. mae'n Creadur ŵya ac yn dodwy llawer o ŵyâu, yn fynych a dinistrir gan Greaduriaid eraill, oni hwy a heidiant y wlad. yr hynafiaid a'n difyra ni ac adroddiad o ryw Greaduriaid eraill, yn Debygol na buont erioed mewn Bod, megis yr aderyn bychan a elwir Trochilus, yr hwn a dywedir a ymbortha ar y bwyd a fyga ef o ddanedd y Crocodile; a'r llygoden a elwir Ichneumon, yr hon, a ddywedant hwy, a neidia i safn y Crocodile ac a fwytta ei ffordd trwy ei fol.

Y Cameliwn, Creadur bychan, rhyw-beth yn debyg i'r Genaugoeg, a newidia ei liw fel y Tefir i Edrych arno, hefyd a cyffarfyddir yma gan Gystlad a gwledydd eraill. yr Estrys sydd Breswylydd y'r Aipht, megis anialwch Affrica;

yr aderyn mwyaf a adnabyddir, a chan
ei drymder ni all Ehedeg, ond a red
gyda Chymorth ei adenydd yn y Cyflym-
ed a cheffyl, ac a helir weithiau megis
helwriaeth arall.

Yr Ibis, aderyn a arfera pigo a
dinystrio y pryfed a faga yn llaid yr afon,
ar dychwelo'r dwfr, a addolwyd gan yr
Aiphtiaid Gynt. Nid wyf yn cael fod nemawr
o'r adarn hyn yn yr Aipht yn presenol; ond
nifer o Ciconia Sydd yn ymweled a hi
ar ol y llif, ac ydynt mor wasanaethgar i
ddystrywio ym lwsgiaid, ac oedd yr Ibis
yn yr amser Gynt.

Fe grybwyllir am amrywiol o ryw-ogaeth
au o Hadrodd, ond tybir na bu rai o
honynt erioed mewn bod amgen y'mennydd
Parydd: yn Neillduol y Neidr, llygaid
yr hon yn unig, fel y dywedir, a saetha
farwolaeth i [illegible]; fel os bydd i un o
honynt roi ei golwg ar aderyn ar bren,

y Sarph yn ddiattreg iw Safn. Yma hefyd
mae'r Asp, nid yw ond bechan, a frath-
-iad yr hon y bewisodd Cleopatra farw.
Dëori Cywion yn ei ffyrnau (Ove
sydd hynodiaeth arall, ac nid gwa
chwedl; Miloedd lawer a Dëorir felly
heb Bluyddyn, y ffyrnau a orchguddir
ac a Boethir a thail Ceffylau i raddau
gwesogrwydd y Sâr.
Y tyrau brig-feini, (Pyramids,) rh
sydd yn Sefyll ar cwrr yr hen Memphis,
o dy'r gorllewin i'r Nile, Cyferbyn a Cair
ydyw'r ardderchogaf tarn o hynafiaeth a
sydd yn aros yn awr ar wyneb y Ddaear
gwaelod y mwyaf a orchguddia un Acr
ar ddeg o dir, ac a fesura 500 Droedfedd
yn Syth-fesur, a 700 o Wŷr-fesur o'r
gwaelod i'r brig; yr hyn a eill peri y
ragoriaeth ydym yn ei gyfarfod mawr
berthynas yw uchder, er i'r Dr. Shaw
